# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Gwener, 29 Medi 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 9.00 - 9.15 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 07 GORFFENNAF 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Cwrt-henri, Ffair-fach a Thalyllychau<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs A Hughes |
| Dewi Sant<br>(3 x swydd wag - 2 gyfredol ac un o 4 Tachwedd 2023 - 2 enwebiad) | Mr E Jones<br>Mr D Picken |
| Maes y Morfa<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr A Muszynski |
| Ysgol Gymraeg Rhydaman<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Dr. S. Page |
| Saron<br>(1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad) | Y Cyng. Karen Davies |
| Stebonheath<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Ms S Farrell |
| Trimsaran<br>(1 lle gwag o 4 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad) | Mr R Sully |
| Tŷ-croes<br>(1 lle gwag o 22 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad) | Y Cyng. Tina Higgins |
| Y Felin<br>(1 lle gwag o 30 Tachwedd 2023 - 1 enwebiad) | Mr H Richards |

| Ysgol Uwchradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bro Myrddin<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr R Jones |
| Coedcae<br>(1 lle gwag – 2 enwebiad) | Y Cyng. Janet Williams |
| Ysgol Emlyn<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr J Rix |
| Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth<br>(4 x swydd wag - 3 cyfredol ac un o 7 Rhagfyr 2023 - 2 enwebiad) | Y Cyng. Russell Sparks<br>Mr J Russell |
| Ysgol Sant Ioan Llwyd<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr A Jones |

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD